SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

Dogfen Bolisi / Policy Document

# Llawlyfr Llywodraethu

**Cyflwyniad i'r Llawlyfr Llywodraethu**

Mae'r Llawlyfr Llywodraethu yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer llywodraethu'r Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd a Heddlu Gogledd Cymru. Mae hyn yn unol â'r cyfrifoldebau, y grymoedd a'r dyletswyddau a roddir ar y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl gan holl ddeddfwriaeth, rheoliadau a chodau ymarfer perthnasol.

Mae'r Llawlyfr Llywodraethu yn cynnwys y pedair dogfen ganlynol:

1. Cod Llywodraethu Corfforaethol

Mae'r *Cod Llywodraethu Corfforaethol* yn ceisio rhoi eglurder ar sut mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn llywodraethu eu sefydliadau, ar y cyd ac ar wahân, yn unol â'r saith egwyddor greiddiol o lywodraethu da fel yr amlinellwyd yn y *Fframwaith Cyflawni Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol* (CIPFA / SOLACE, 2016).

2. Cynllun Caniatâd

Mae'r *Cynllun Caniatâd* yn amlinellu sut:

- Mae'r Comisiynydd yn disgwyl i'r Gyllideb Blismona gael ei chymhwyso;
- Mae'r Comisiynydd yn dwyn y Prif Gwnstabl yn atebol am reoli'r gyllideb o ddydd i ddydd;
- Mae'r Prif Gwnstabl yn cynorthwyo gydag ymarfer swyddogaethau'r Comisiynydd;
- Mae'r Comisiynydd yn dirprwyo i'w staff ei hun.

3. Rheoliadau Ariannol

Mae'r *Rheoliadau Ariannol* yn amlinellu sut mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn bodloni eu cyfrifoldebau statudol o ran gweinyddu eu materion ariannol yn iawn. Mae'r rheoliadau'n sefydlu, ar lefel uchel, cyfrifoldebau priodol y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl a'u Huwch Swyddogion (Prif Weithredwr a Phrif Swyddog Cyllid Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Dirprwy Brif Gwnstabl, y Prif Gwnstabl Cynorthwyol a Chyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Heddlu Gogledd Cymru) ar gyfer rheolaeth ariannol. Mae'r rheoliadau hefyd yn cynnwys manylion gweithdrefnol i gynorthwyo gwneud penderfyniadau, egluro atebolrwydd a sicrhau uniondeb rheolaethau a stiwardiaeth fewnol ar bob lefel.

4. Gorchmynion Sefydlog Cytundebau

Mae'r *Gorchmynion Sefydlog Cytundebau* yn manylu gofynion a gweithdrefnau ar gyfer caffael holl nwyddau, gwasanaethau a gweithiau a ymgymerir ar ran y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl. Maent yn sicrhau fod cytundebau'n cael y gwerth gorau am arian, cynnal y priodoldeb o'r safonau uchaf, cydymffurfio â gofynion cyfreithiol, a chydymffurfio â pholisïau'r Comisiynydd.

Mae'r Llawlyfr Llywodraethu'n cael ei gefnogi gan y strwythur llywodraethu ac ystod o bolisïau, gweithdrefnau a phrotocolau sy'n cael eu cyfeirio atynt ac y ceir dolenni iddynt o fewn y dogfennau eu hunain.

Bydd y Llawlyfr Llywodraethu yn cael ei adolygu bob blwyddyn a'i adnewyddu yng ngoleuni newidiadau mewn deddfwriaeth neu ganllaw a roddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol.